
# Fy nghalendr Dyna Dywydd

Gwneud y defnydd gorau o’r adnodd Dyna Dywydd:

- Dylech eu hannog i gwblhau’r calendr gan bwysleisio y bydd eu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dilynol yn yr ystafell ddosbarth ar ôl y gwyliau hanner tymor.
- Eglurwch fod angen i’r plant ddychwelyd y calendr i’r ysgol am un wythnos ac yna nhw fydd biau’r calendr ac y byddan nhw’n cael mynd ag ef adref a’i gadw.
- Rhannwch yr adnodd â’r plant yn yr ysgol cyn ei ddosbarthu a thrafodwch bob tudalen. Dylai hyn eu galluogi i egluro i’w rhieni/gofalwyr gartref a chymryd rôl arweiniol yn hytrach na gwylio’r gweithgaredd o bell. Bydd bod yn gyfarwydd â’r cynllun yn fanteisiol.
- Wrth drafod a chofnodi’r tywydd yn yr ysgol, (wrth gofrestru neu yn ystod amser cylch o bosibl) dylech atgoffa’r plant y byddan nhw’n cofnodi’r tywydd gartref ar eu Calendr Dyna Dywydd eu hunain.
- Hysbyswch y teuluoedd fod taflenni cofnodi dyddiol ychwanegol ar gael ar y wefan Pori Drwy Stori http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy/ neu mae modd argraffu copïau ychwanegol i’w dosbarthu i rieni/gofalwyr.
- Archebwch waledi plastig ar gyfer y Calendr Dyna Dywydd os oes angen.
- Rydym ni’n awgrymu cynnal gweithgareddau’r Sialens Dyna Dywydd gartref yn ystod hanner tymor yr hydref.



# Gweithgareddau'r Calendr Dyna Dywydd

**Sgyrsiau Amser Cylch:**

Dewiswch rai o'r plant i rannu eu Calendrau Dyna Dywydd a'u canfyddiadau. Gallen nhw sgwrsio am y lluniau y byddan nhw wedi'u gwneud a'r pethau y byddan nhw wedi eu gwneud. Gellir cynnal hyn dros ychydig o ddyddiau er mwyn ei reoli.

**Sesiynau dangos a dweud:**

Gallwch gynnal sesiynau lle mae plant yn cymryd eu tro i ddangos eu gwaith o gartref i'r dosbarth neu mewn grwpiau. Gellid gwneud hyn dros rai dyddiau.

**Rhannu â chyfeillion:**

Penderfynwch ar ffordd o rannu'r plant yn barau fel y gallan nhw rannu eu calendrau â phlentyn arall. Neilltuwch amser penodol er mwyn cynnal y gweithgaredd hwn a gall pob aelod staff ymgynnull o'u hamgylch er mwyn gwella'r drafodaeth a rhoi mwy o statws i'r dasg.

**Graff dosbarth:**

Casglwch holl ganfyddiadau'r taflenni crynhoi gyda chymorth y plant. Lluniwch siart bar i gofnodi'r mathau o dywydd a'i arddangos er mwyn i'r dosbarth ei drafod. Gallwch ddefnyddio'r graff hefyd ar gyfer trafodaethau sy'n gysylltiedig â rhifedd.

**Graffiau unigol:**

Gall pob plentyn wneud llun graff i gynrychioli'r tywydd ar gyfer wythnos hanner tymor ar bapur A4 yn ystod sesiwn i ganolbwyntio ar y dasg. Ychwanegwch rai geiriau y gall y plant fod am eu hysgrifennu. Gallech gyfuno'r cofnodion unigol hyn er mwyn gwneud llyfr dosbarth i'w roi yn eich cornel lyfrau.

